

Herbert Ryle a'r Milwr Anhysbys



Fis Tachwedd eleni byddwn yn cofio canmlwyddiant dadorchuddio bedd y Milwr Anhysbys yn Abaty Westminster. Wrth i ni nesau at gyfnod y Cofio, mae Bill Hines yn ystyried y dyn a ysbrydolodd y cofeb cenedlaethol hwn a'i gysylltiad â Gorllewin Cymru

Daeth y syniad gwreiddiol oddi wrth Parch David Railton, a oedd yn gwasanaethu fel caplan milwrol ar y Ffrynt Orllewinol yn 1916 a gwelodd fedd unigol yn Armentieres, i 'Filwr Prydeinig Anhysbys'. Er y gwrthodwyd ei syniad gwreiddiol am gofeb genedlaethol i'r rhai a laddwyd, ysgrifennodd eto yn 1920 at Herbert Ryle, Deon Westminster ar y pryd. Cyflwynodd Ryle y syniad i'r PW Lloyd George a'r tro yma llwyddodd, ar yr amod bod y corff yn cael ei adnabod fel Y Rhyfelwr Anhysbys, i gynnwys y rhai a wasanaethodd yn yr awyr ac ar y môr. Dewiswyd corff mewn seremoni yn St Pol yng Nogledd Ffrainc ar Dachwedd 7 1920 gan y Brigadydd Gadfridog Wyatt, ac yna'i gludo ar fôr a rheilffordd i Victoria yn Llundain, ac, ar Dachwedd 11, fe'i cludwyd mewn coets gwn i'r Cenotaph yn Whitehall, ble y dadorchuddiwyd y gofeb newydd gan Lutyens. Wedi dwy funud o dawelwch symudodd yr osgordd i Abaty Westminster ble yr oedd Brenin Siôr V a 100 a dderbyniodd y Groes Victoria yn disgwyl amdanynt i dderbyn a corff a gwyllo'r claddedigaeth derfynol.

Herbert Ryle gyfansoddodd y beddagraff enwog a ysgrifenyddwyd ar y gofeb, yn dechrau *'Beneath this stone rests the body of a British warrior unknown by name or rank brought from France to lie among the most illustrious of the land'* ac yn gorffen gyda'r brawddegau *'They buried him among kings because he had done good towards God and toward his house'*. Y mae'r brawddegau olaf hyn yn addasiad o'r rheiny yn Cronicl 24:16



Er bod y digwyddiadau hyn yn enwog, efallai na gofir yn eang bod gan Ryle gysylltiad cynnar gyda Gorllewin Cymru, gan ei fod yn Brifathro Coleg Dewi Sant, Llambled, rhwng 1886 1888, cyn symud yn ôl yn gyntaf at fywyd academiaidd yng Nghaergrawnt, ac yna fel esgob yng Nghaerwysg a Winchester, cyn dod yn Ddeon Westminster yn 1911. Bu farw yn 1925 ac fe'i claddwyd yn agos at y Rhyfelwr Anhysbys yn Abaty Westminster. Daeth rhai eitemau yn perthyn i Ryle i'r golwg yn ddiweddar yn Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth, llythyr o ddiolch a ysgrifennodd at gyn Brifathro Thomas Charles Edwards yn 1896 pan ddaeth yn Llywydd Coleg y Frenhines Caergrawnt, a chopi 1696 o gofiant Richard Baxter *Reliquiae Baxterianae*.

Credydau Llun:

1. Mike from England/CC BY-SA (<https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0>)
2. https://en.wikipedia.org/wiki/Herbert_Edward_Ryle